

YMATEB AC ADFERIAD:

SAFBWYNT LLYWODRAETH LEOL

CYNGOR PARTNERIAETH, 10 MEHEFIN 2020

CYFLWYNIAD

1. Mae Cyngorau, ynghyd â phartneriaid yn y gwasanaeth iechyd a'r trydydd sector, yn darparu ymateb rheng flaen i argyfwng cenedlaethol COVID-19 sy'n newid yn gyflym iawn.
2. Mae Cyngorau wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i gynllunio ar gyfer yr argyfwng, drwy Fforymau Cadernid Lleol, yn ystod y cyfnod ymateb presennol drwy'r Grwpiau Cydlynu Strategol a byddant yn parhau i wneud hynny wrth symud i'r camau adfer a sefydlu Grwpiau Cydlynu Adferiad (GCA).
3. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arweinyddiaeth genedlaethol ac mae hyn wedi'i gyfannu gydag arweinyddiaeth gymunedol drwy lywodraeth leol.
4. Mae gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol ymrwymiad a rennir i weithio mewn partneriaeth. Mae'r arweinyddiaeth a rennir wedi'i dangos a'i chryfhau yn ystod yr argyfwng hwn a bu lefel digynsail o drafod ac ymgysylltu a bod yn agored, gyda chyfarfodydd dwyochrog rheolaidd rhwng Gweinidogion a llefarwyr CLILC a chyfarfodydd wythnosol rhwng y 22 arweinydd a'r Gweinidogion.
5. Mae'r sianelau cyfathrebu hyn wedi sicrhau y gall Gweinidogion drafod blaenoriaethau a strategaeth genedlaethol yn uniongyrchol gydag arweinwyr a hefyd sicrhawyd bod materion a risgiau lleol yn cael eu huwchgysylltu'n gyflym i'r Gweinidogion a chaniatáu deallusrwydd ac arloesi lleol i ddatblygu strategaeth genedlaethol. Nid yw'r rheoleidd-dra a'r gyfradd o ymgysylltu canolog-lleol hwn i'w weld mewn rhannau eraill o'r DU.
6. Tra bod llawer o'r strategaeth yn cael ei gosod yn genedlaethol, mae'r argyfwng wedi dangos pwysigrwydd sicrhau bod partneriaid sy'n darparu'n lleol yn ymwneud â'i ddatblygiad; nid yn unig mae'n bwysig i ganiatáu hyblygrwydd i ddehongli strategaeth ac ymateb yn unol â hynny i amgylchiadau a chapasiti lleol ond bod sefydliadau gyda phrofiad darparu gwasanaeth ac arbenigedd gweithredol a chyfrifoldeb yn helpu i ddatblygu'r ymateb strategol.
7. Mae Cyngorau wedi dangos hyblygrwydd, arloesi, cadernid ac ymatebolrwydd. Mae'r argyfwng wedi dangos gallu cyngorau i ymateb waeth beth fo'r raddfa a chadarnhawyd safiad CLILC ar bwysigrwydd sybsidiaredd a lleoliaeth, gydag aelodau etholedig a swyddogion â'u gwreiddiau yn eu cymunedau lleol.
8. Mae Cyngorau wedi dangos eu bod wedi eu lleoli'n unigryw yng nghanol darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus a'u cymunedau ac yn aml nhw yw'r man

galw cyntaf i'r mwyaf diamddiffyn neu'r sawl sydd angen cefnogaeth neu sicrwydd.

YMATEB

9. Roedd ymateb uniongyrchol y Cynghorau yn bendant; o fewn dyddiau ac wythnosau roedd cynghorau wedi ail-ddylunio ac ail-flaenoriaethu gwasanaethau lleol hanfodol, cau rhai gwasanaethau i lawr a chyflwyno modelau gweithredol newydd, gyda miloedd o weithwyr yn gweithio o bell a miloedd yn gweithio mewn gwasanaethau eraill yn gwirfoddoli i newid rolau dros dro dros nos i helpu i gyfrannu at yr ymdrech frys.
10. Mae cynghorau wedi gorfod ailstrwythuro o amgylch gwasanaethau hanfodol fel gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cymorth newydd fel canolfannau gweithwyr allweddol a gwarchod, mae hyn wedi golygu staff yn cael eu dadleoli, cynnal archwiliadau sgiliau ac mewn rhai amgylchiadau rhoi staff ar ffyrlo. Dylid canmol gweithwyr cynghorau am eu hyblygrwydd a'u hangerdd ac ymrwymiad i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.
11. Mae cynghorau wedi cyflwyno trefniadau diwygio a thrawsnewid gwasanaethau yn gyflym a dibynnwyd arnynt i ddarparu o dan amgylchiadau mwyaf heriol, gan ymateb i flaenoriaethau, cynlluniau, canllawiau a rheoliadau lleol a chenedlaethol sy'n newid yn gyflym:
 - Mae gofal cymdeithasol yn arbennig ar y rheng flaen yn gweithio o dan rhai o'r amgylchiadau mwyaf heriol ynghyd â chydweithwyr o fewn y GIG. Mae cefnogaeth y cyhoedd i'r gweithwyr gofal yn gwbl haeddiannol ac mae cyfraniad staff gofal wedi'i gydnabod gan benderfyniad Llywodraeth Cymru i ddyfarnu tâl ychwanegol o £500;
 - Mae Cynghorau hefyd wedi chwarae rhan ganolog yn ymateb i'r argyfwng iechyd, gweithio drwy Grwpiau Cydgysylltu Strategol a'u Byrddau Iechyd Lleol i sefydlu ysbytai maes dros dro. Mae'r ymateb i argyfwng hwn, angen adnoddau partneriaeth, cynllunio, staff a chyllid helaeth a thrawsnewid sawl eiddo'r cyngor yn gyflym wedi gweld cynghorau a'u staff yn derbyn canmoliaeth uchel am eu hymdrechion a'u harbenigedd. Mae Cynghorau wedi rheoli heriau logistaidd sylweddol a chyflawni datblygiadau seilwaith mawr mewn mater o wythnosau;
 - Mae Cynghorau wedi bod yn ganolog i gydlynu cefnogaeth i'r mwyaf diamddiffyn yn ein cymunedau, gan weithio gyda gwirfoddolwyr a phartneriaid yn y trydydd sector, drwy'r cynllun gwarchod, darparu bocsys bwyd a chefnogi banciau bwyd a gwasanaethau hanfodol eraill, gan gynnwys ymateb i gynnydd sylweddol yn y galw am gyngor a chefnogaeth lles;
 - Drwy weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, mae cynghorau wedi trawsnewid gwasanaethau digartrefedd, darparu llety brys dros dro a threfnu

cefnogaeth hanfodol i gannoedd o bobl ddigartref, gosod y sylfeini ar gyfer dull i'r dyfodol a fyddai'n arwain at gyflawni'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru;

- Mae Cynghorau wedi blaenoriaethu casgliadau gwastraff cartref/ailgylchu i sicrhau bod y gwasanaeth hwn wedi parhau'n ddi-dor drwy'r cyfnod clo. Maent wedi adleoli staff o feysydd eraill i sicrhau niferoedd digonol ar y rheng flaen a chyflwyno mesurau i sicrhau diogelwch y gweithlu. Wrth i amodau ganiatáu, mae cynghorau wedi ailgyflwyno casgliadau gwastraff gwyrdd a swmpus, ynghyd ag ailagor Gwasanaethau Ailgylchu a Gwastraff Cartref, gan eu rheoli'n ofalus i sicrhau diogelwch ffordd a'r safle i drigolion a gweithwyr.
 - Mae Cynghorau wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru a gweithredwyr bysiau i ddod o hyd i ffyrdd i gefnogi'r sector drwy gyfnod anodd iawn pan mae incwm ffioedd teithwyr wedi gostwng. Tra bod ffynonellau cyllid i weithredwyr yn amrywiol, mae taliadau parhaus gan awdurdodau lleol wedi helpu i gadw'r diwydiant i fynd, ynghyd â mesurau eraill a gymerwyd (fel rhoi rhai o'n staff ar ffyrlo). Bydd hyn yn hanfodol wrth i'r cyfnod clo lacio, gan gynnwys cymorth i ddychwelyd i'r ysgol, sy'n dibynnu'n helaeth ar ddarparu cludiant rhwng y cartref a'r ysgol.
 - Mae Cynghorau a'u hysgolion wedi chwarae rôl ganolog, yn darparu gofal plant i weithwyr allweddol, drwy wasanaeth prydau ysgol am ddim (a diwallu'r galw cynyddol) yn ogystal â sicrhau bod cefnogaeth dysgu a lles yn parhau drwy adnoddau ac addysgu ar-lein;
 - Mae Cynghorau wedi ymateb yn sydyn ac yn hyblyg i gefnogi busnesau mewn angen, hyd yma yn cyflwyno 54,000 o ddyfarniadau cefnogi busnes sy'n gyfanswm o £661 miliwn yn ogystal â datblygu cynigion arloesol ar gyfer bwrsariau lleol hyblyg i gefnogi busnesau llai y tu allan i drefniadau cefnogi busnesau cenedlaethol; a
 - Mae Cynghorau wedi cynnal peilot ac yn rhan annatod o'r rhaglen Profi, Orlhain a Diogelu – y tu allan i ddatblygiad brechlyn, bydd hyn yn darparu'r cyfraniad mwyaf sylweddol a sylfeini ar gyfer unrhyw gynhaliaeth eang o'r feirws ac unrhyw lacio'r cyfnod clo ar raddfa eang. Bydd gwybodaeth leol, hyblygrwydd gweithredol a phrofiad diogelu'r cyhoedd ac arbenigedd Cynghorau yn hanfodol i sicrhau bod yr elfennau olrhain a diogelu yn cael eu darparu'n llwyddiannus.
12. Mae'r holl wasanaethau newydd neu ddiwygiedig hyn wedi eu cyflwyno'n gyflym tra'n parhau i sicrhau bod gwasanaethau craidd eraill yn parhau mor 'normal' â phosibl.

LLACIO'R CYFNOD CLO A CHYFNOD PONTIO

13. Mae'r 'Fframwaith Adfer' a 'Llacio'r cyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi: dal i drafod' yn amlinellu dull Llywodraeth Cymru ar gyfer adfer a'r dystiolaeth a'r mesurau sy'n sail i unrhyw benderfyniadau i sicrhau bod y raddfa R yn parhau o dan 1.
14. Mae Cynghorau yn unigol a gyda phartneriaid yn cynnal adolygiadau gwasanaeth cynhwysfawr i gynllunio ar gyfer dychwelyd yn raddol neu adolygu gwasanaethau wrth i'r cyfnod clo lacio yn raddol neu wrth i anghenion neu flaenoriaethau lleol ddatblygu.
15. Yn ogystal â gwasanaethau cynghorau yn dychwelyd yn raddol wrth i'r cyfnod clo lacio, mae awdurdodau lleol yn chwarae rôl galluogi hanfodol ar gyfer llacio'r cyfnod clo y gymdeithas a'r economi ymhellach a chefnogi gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae'r ystyriaeth bresennol o ddychwelyd manwerthu dianghenraid yn dibynnu'n fawr ar awdurdodau lleol yn paratoi manau cyhoeddus a strydoedd ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, gwaith paratoadol safonau masnach ac iechyd yr amgylchedd a chynlluniau i hwyluso dychwelyd i'r gwaith drwy ychwanegiadau teithio llesol. Bydd ailagor ysgolion a darparu gofal plant hanfodol yn ystod y dydd yn sail i ddychwelyd i'r gwaith mwy eang.
16. Oherwydd natur unigryw, graddfa a'r ansicrwydd ynghylch yr argyfwng, bydd y cyfnod pontio i'r camau adferiad yn gyfnod estynedig, gydag amrywiadau lleol posibl o ran dulliau a chyfyngiadau. Bydd y cyfnod pontio yn faith a gellir amharu arno gan y bydd angen bod yn barod i newid i gam ymateb ymroddedig os bydd yna gynnydd lleol neu ail don yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
17. Mae yna nifer o heriau neu risgiau parhaus fydd angen eu monitro a'u lliniaru drwy gydol y cyfnod trosglwyddo a chyn adferiad gan gynnwys:
 - Y raddfa R yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws Cymru;
 - Profi, Olrhain a Diogelu ar waith fesul cam yn llwyddiannus;
 - Parhau i gydymffurfio â'r cadw pellter cymdeithasol wrth i'r cyfnod clo lacio'n raddol neu ei ailgyflwyno os bydd angen;
 - Cyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn arbennig wrth i fwy o'r cyhoedd ddefnyddio PPE wrth i'r cyfnod clo lacio ac yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth;
 - Cyfathrebu a negeseuon effeithiol, yn arbennig rheoli unrhyw wahaniaethau a dargyfeiriad camau a gymerir rhwng Cymru a Lloegr.
 - Cyfyngiadau sifil maith (mesurau cyfnod clo a chadw pellter cymdeithasol) yn arwain at risg cynyddol o densiynau yn y gymuned ac anhrefn cyhoeddus.
 - Gallu sefydliadol i reoli ymatebion i leddfur'r cyfnod clo, yn benodol gorfodaeth;

- Iechyd a lles y gweithlu a'r gallu a chadernid i gyflwyno gwasanaethau blaenorol neu newydd, yn arbennig staff yn hunan-ynysu, gwarchod neu adleoli i rolau eraill fel olrhain cyswllt;
- Addasu gweithleoedd sefydliadol i sicrhau cadw pellter cymdeithasol a sefydliadau i gynnal gwaith cyfanwerthu o bell;
- Sicrhau parhad dysgu a darparu cefnogaeth addysgol a lles i garfan o blant a phobl ifanc sy'n profi cyfnod heriol ac aflonyddgar unigryw yn eu bywydau dysgu a phersonol;
- Heriau economaidd-gymdeithasol lleol a chenedlaethol sylweddol o ystyried effaith economaidd uniongyrchol a dirwasgiad tebygol, gan gynnwys diweithdra cynyddol a nifer yn derbyn credyd cynhwysol a budd-daliadau eraill;
- Capasiti iechyd a gofal cymdeithasol, yn arbennig wrth i wasanaethau iechyd 'arferol' gael eu hailgyflwyno a chynlluniau ar gyfer cynnydd lleol neu frig yn y dyfodol gael eu cynllunio; a
- Cyllid gwasanaeth cyhoeddus ansicr, gyda phwysau tymor byr a chanolig sylweddol yn arbennig gan awdurdodau lleol ynghyd ag ansicrwydd am ymateb cyllidebol Llywodraeth y DU i'r effaith economaidd o ganlyniad i'r COVID-19 ac effaith Brexit.

ADFER AC ADNEWYDDU

18. Bydd gan y COVID-19 effaith mawr, am gyfnod maith ar iechyd y cyhoedd, economaidd a chymdeithasol yng Nghymru ac ar draws y byd.
19. Mae'r heriau wedi bod yn ddigynsail, ac fel yr amlinellwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus yn parhau yn y camau ymateb, tra'n cynllunio ar gyfer adferiad tymor hir.
20. Mae disgwyliadau gwasanaeth cyhoeddus ac anghenion cymunedau Cymru yn debyg o fod yn wahanol iawn i rai COVID-19 ac mae yna gydnabyddiaeth eang y bydd adferiad angen 'adennill' yn hytrach na 'dychwelyd' i'r drefn flaenorol.
21. Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer adferiad, wedi eu cydlynu gan y Cwnsler Cyffredinol, yn cael eu llywio gan gyfres o drafodaethau o amgylch y bwrdd gydag ystod o arbenigwyr rhyngwladol ym maes economeg, y farchnad lafur, newid hinsawdd, gwasanaethau cyhoeddus a busnesau.
22. Mae eraill, fel Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn annog trafodaethau i annog adferiad radical, cynaliadwy a chynnig diwygiadau fel Incwm Sylfaenol Cynhwysol ac wythnos waith 4 diwrnod i fynd i'r afael ag anghyfartaleddau cymdeithasol a gwella ansawdd bywyd.

23. Mae llywodraeth leol wedi ymrwymo i adeiladu ar yr arloesiad a dysgu hyd yma ac mae'n awyddus i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a helpu i ddatblygu cynlluniau ar gyfer adferiad cynaliadwy a thrawsffurfiol.

24. Yn ystod cyfarfodydd diweddar gyda Gweinidogion, mae arweinwyr wedi amlygu nifer o gyfleoedd neu flaenoriaethau ar gyfer adferiad. Mae'r canlynol yn rhai o'r syniadau a gyflwynwyd ond nid yw'r rhestr yn gyflawn:

- **Ymrwymo i drawsnewid gweithio sefydliadol a darparu gwasanaeth,** y sgôp ar gyfer defnydd cynyddol o ffyrdd digidol, newydd mwy hyblyg ac amlddisgyblaethol o weithio gydag effaith o ganlyniad ar ddefnydd swyddfa, yr amgylchedd a lles y gweithlu;
- **Adeiladu ar gyd-nerthu cymunedol, cyd-gynhyrchu a rôl dinasyddion** - adeiladu ar ymddygiad newydd, ymrwymiad a chyfraniad cymunedau a gwirfoddolwyr;
- **Cyfleoedd i sefydlu neu ymestyn sifftiau moddol mewn cludiant** drwy deithio llesol, cludiant cyhoeddus a ffyrdd gwahanol o weithio;
- **Cydnabod pwysigrwydd ac ail-fuddsoddi mewn gofal cymdeithasol cynaliadwy** o ystyried ei gyd-ddibyniaeth o'r GIG;
- Cynnal gwelliant a thrawsnewid cyflym gwasanaethau digartrefedd a **chyflawni'r nod o roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru.**
- **Ailddatblygu ac ail-fuddsoddi mewn economïau lleol modern** drwy fframweithiau caffael lleol, benthyca darbodus ar gyfer adeiladu sector cyhoeddus (gan gynnwys datblygiadau tai strategol) a hwb i'r sector adeiladu, drwy brosiectau ynni adnewyddadwy/carbon isel a chynlluniau lliniaru llifogydd, buddsoddi yn niwydiannau'r dyfodol ac ailfeddwl am y swyddi a'r sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol.
- **Buddsoddi mewn mesurau iechyd ataliol** a rôl iechyd y cyhoedd, gan gynnwys teithio llesol a ffyrdd o fyw iachach o ran y bwyd a diod a gynigir a'r gadwyn gyflenwi.
- **Cadw a chynnal gwelliannau amgylcheddol** a brofwyd yn ystod y cyfnod clo, o ganlyniad i ostyngiad mewn allyriadau, nifer yr ymwelwyr a thraffig; a
- **Hybu a chynnal cydnabyddiaeth a pharch gwleidyddol a chyhoeddus newydd tuag at wasanaethau cyhoeddus a gweithwyr rheng-flaen,** gydag ymrwymiad parhaus a rennir a chydgyfrifoldeb dros ganlyniadau gwasanaeth cyhoeddus a chymuned.